**Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau , Dydd Iau, 10 Rhagfyr 2020**

| Eitem ar yr Agenda | Pwnc | Penderfyniad |
|---|---|---|
| **1** | YMDDIHEURIADAU | Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Mabon ap Gwynfor. Y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus, roedd Pennaeth y Gyfraith, AD a'r Gwasanaethau Democrataidd/Swyddog Monitro yn dirprwyo dros y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn y cyfarfod. |
| **2** | DATGAN CYSYLLTIAD | Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan. |
| **3** | MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD | Nid oedd unrhyw faterion brys wedi eu codi gyda'r Cadeirydd cyn y cyfarfod. |
| **4** | COFNODION | **(a) Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau Arbennig a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2020**<br><br>Cytunwyd ar yr argymhelliad drwy gonsensws. Ni chafwyd unrhyw bleidlais ffurfiol. Cynigiwyd yr argymhelliad i gymeradwyo ac fe'i eiliwyd. Nododd yr holl aelodau eu bod o blaid yr argymhelliad, ni nododd neb eu bod yn ei erbyn ac ni nododd neb eu bod yn dymuno ymatal.<br><br>***<u>Penderfynwyd:</u> - cymeradwyo cofnodion y Cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2020 fel cofnod cywir.***<br><br>**(b) Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Cymunedau a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2020**<br><br>Cytunwyd ar yr argymhelliad drwy gonsensws. Ni chafwyd unrhyw bleidlais ffurfiol. Cynigiwyd yr argymhelliad i gymeradwyo ac fe'i eiliwyd. Nododd yr holl aelodau eu bod o blaid yr |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | argymhelliad, ni nododd neb eu bod yn ei erbyn ac ni nododd neb eu bod yn dymuno ymatal.<br><br>***<u>Penderfynwyd:</u> - Yn ddibynnol ar ddilyn yr ymholiadau y gofynnwyd amdanynt a'u bod yn cael eu hadrodd yn ôl i aelodau, fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref 2020 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.*** |
| **5** | RHEOLI PERYGL LLIFOGYDD AR DRAWS SIR DDINBYCH | Cytunwyd ar yr argymhelliad drwy gonsensws. Ni chafwyd unrhyw bleidlais ffurfiol. Cynigiwyd yr argymhelliad i gymeradwyo ac fe'i eiliwyd. Nododd yr holl aelodau eu bod o blaid yr argymhelliad, ni nododd neb eu bod yn ei erbyn ac ni nododd neb eu bod yn dymuno ymatal.<br><br>***<u>Penderfynodd</u>*** y Pwyllgor: ***yn ddibynnol ar yr arsylwadau uchod fod***<br><br>***(i) gweithgareddau rheoli perygl llifogydd presennol y Cyngor a'r rhai sydd wedi eu cynllunio yn cyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth perygl llifogydd perthnasol, a'i fod yn defnyddio'r pwerau a ganiateir yn effeithiol i gynnal gwelliannau yn ymwneud â llifogydd ac amddiffyn yr arfordir;***<br>***(ii) fod y Cyngor yn mabwysiadu mesurau digonol i weithio'n effeithiol gyda thirfeddianwyr, datblygwyr ac awdurdodau eraill yn ymwneud â rheoli risg i reoli perygl llifogydd yn Sir Ddinbych;***<br>***(iii) fod y Cyngor yn cyflawni'r canlyniadau a'r mesurau a amlinellir yn y Strategaeth Leol Rheoli Risg Llifogydd;***<br>***(iv) fe ddylid ymgysylltu gyda'r Grwpiau Ardal yr Aelodau priodol mewn perthynas â chynllun a chamau datblygu Cynllun Amddiffyn Arfordirol Canol y Rhyl a Chynllun Amddiffyn Arfordirol Canol Prestatyn yn ystod y 12 mis nesaf a dylai casgliadau'r cam hwn o'r cynlluniau gael eu*** |

| Agenda Item No | Topic | Decision |
|---|---|---|
| | | ***hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor maes o law;***<br>***(v) fod grŵp tasg a gorffen yn cael ei sefydlu i archwilio dulliau i gryfhau rhyngweithio a pherthnasoedd gwaith ymhellach rhwng awdurdodau rheoli perygl llifogydd cyhoeddus a thirfeddianwyr glannau afon ar draws y sir gyda'r bwriad o wella dealltwriaeth ei gilydd o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â sicrhau llif dirwystr o ddŵr drwy'r tir y maent yn ei reoli; a***<br>***(vi) cyflwyno'r adroddiadau ar y cynigion rheoli llifogydd ar gyfer Ffos y Rhyl a Gwter Prestatyn, yn ogystal â'r adroddiad ar yr ymchwiliad i lifogydd Chwefror 2020 yn Sir Ddinbych, i'r pwyllgor cyn gynted â'u bod ar gael.*** |
| **6** | RHAGLEN WAITH CRAFFU | Cytunwyd ar yr argymhelliad drwy gonsensws. Ni chafwyd unrhyw bleidlais ffurfiol. Cynigiwyd yr argymhelliad i gymeradwyo ac fe'i eiliwyd. Nododd yr holl aelodau eu bod o blaid yr argymhelliad, ni nododd neb eu bod yn ei erbyn ac ni nododd neb eu bod yn dymuno ymatal.<br><br>***Penderfynodd*** y Pwyllgor:<br><br>***gadarnhau Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor yn ddibynnol ar y diwygiadau a'r hyn sydd i'w gynnwys yn y rhaglen gwaith i'r dyfodol drafft a gynigiwyd yn ystod y cyfarfod.*** |
| **7** | ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR PWYLLGORAU | Nid oedd yna unrhyw adborth gan gynrychiolwyr i'w adrodd. |